# Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

## EUR(2) 06-06 (p.5)

### Dyddiad: 12 Gorffennaf 2006
### Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd, Bae Caerdydd
### Teitl: Papur i'w Nodi: Prosiect Craffu'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus ar Drefniadau Etholiadol

**Diben**

1. Yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol ar 22 Mehefin 2006, trafodwyd Cylch Gorchwyl yr adolygiad arfaethedig o addysg dinasyddiaeth Ewropeaidd a byd-eang yng Nghymru.

2. Yn ystod y drafodaeth, cyfeiriwyd at y ffaith fod y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus yn cynnal prosiect craffu ar Drefniadau Etholiadol. Fel rhan o'r prosiect, mae'n ystyried nifer y bobl ifanc sy'n pleidleisio ac addysg dinasyddiaeth.

3. Mae'r papur hwn yn crynhoi'r gwaith a wnaed fel rhan o'r prosiect craffu hyd yma, gan ganolbwyntio ar ystyriaethau'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus o addysg dinasyddiaeth a gwleidyddiaeth.

**Cylch Gwaith y Prosiect Craffu**

4. Ym mis Rhagfyr 2004, cytunodd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus i bwyso a mesur trefniadau etholiadol yng Nghymru. Er nad yw llawer o'r pwerau i newid trefniadau etholiadol yng Nghymru wedi'u datganoli, roedd y Pwyllgor yn credu bod nifer o bethau y gellid eu gwneud o fewn pwerau'r Cynulliad i fynd i'r afael â'r materion dan sylw.

5. Cymeradwywyd cylch gwaith y Prosiect Craffu yn ei gyfarfod ar 9 Mawrth 2005:

- Ystyried materion yn ymwneud â threfniadau etholiadau llywodraeth leol ac etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol yng Nghymru, ac yn arbennig, cofrestru pleidleiswyr, canran y bobl sy'n pleidleisio, y bobl ifanc sy'n pleidleisio a phleidleisio dwyieithog.
- Ystyried gwahanol fesurau a ddefnyddir o fewn systemau gwleidyddol eraill ar gyfer gwella'r ganran sy'n pleidleisio, cofrestru pobl ifanc a'u hannog i bleidleisio, ac i ba raddau y gallent gael eu cymhwyso i etholiadau llywodraeth leol ac etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol yng Nghymru.
- Ystyried a oes unrhyw fesurau ychwanegol yn ofynnol er mwyn sicrhau bod y trefniadau pleidleisio yng Nghymru yn gwbl gynhwysol.
- Cyflwyno argymhellion.

**Y gwaith hyd yma**

6. Ers mis Mawrth 2005, mae'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cael tystiolaeth lafar gan nifer o unigolion a sefydliadau. Mae tystiolaeth ysgrifenedig hefyd wedi dod i law. Cytunodd y Pwyllgor ar Adroddiad Interim ym mis Ionawr 2006 (Atodiad 1). Yn ystod yr ymchwiliad, mae nifer o faterion allweddol wedi dod i'r amlwg sy'n sail i ymarfer ymgynghori arall. Cytunodd y Pwyllgor ar Bapur Ymgynghori ym mis Mai 2006 ac fe'i hanfonwyd at ymgyngoreion. Daw'r cyfnod ymgynghori i ben ar 14 Awst 2006 (Atodiad 2). Mae ymgynghoriad ar-lein hefyd ar waith ar wefan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus i gasglu sylwadau pobl ifanc ar bleidleisio. Bwriedir paratoi Adroddiad Terfynol ddiwedd y flwyddyn.

**Dinasyddiaeth**

7. Mae'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus wedi bod ar ddau ymweliad tramor fel rhan o'r prosiect craffu. Bu'n ymweld â'r Iseldiroedd, Denmarc a Gwlad Belg ym mis Medi 2005 a bu'n ymweld â Sweden ym mis Ebrill 2006.

8. Ar ôl yr ymweliad cyntaf, pan gyfarfu'r Aelodau â phlant ysgol yn Nenmarc i drafod pleidleisio ac addysg wleidyddol, nodwyd fel a ganlyn:

Dywedodd Anne Birte Pade o’r Uned Etholiadol fod pleidleisio yn norm cymdeithasol cryf yn Nenmarc. Mae Denmarc hefyd wedi bod yn llwyddiannus wrth ysgogi grwpiau anodd eu cyrraedd yn y gymdeithas a phobl ifainc. Mae sefydliadau etholiadol Denmarc, megis y pleidiau gwleidyddol, yn hyrwyddo ysgogi’r grwpiau gwan.

Mae gan ysgolion yn Nenmarc gynghorau etholedig, sef dau gynrychiolydd o bob dosbarth. Roedd Tîm Addysg Cyngor Copenhagen yn meddwl y dylai Pwyllgorau’r Cyngor annog cynghorau ysgol i roi tystiolaeth i wrandawiadau pwyllgor. Roedd y cyngor wedi ysgrifennu llawlyfr, Canllaw’r Disgybl i Ddemocratiaeth. Yn Nenmarc, disgwylir i bobl ifainc gymryd rhan mewn gweithgareddau oddi allan i’r ysgolion ac mae sefydliadau allanol fel arfer yn adlewyrchu’r broses ddemocrataidd o wneud penderfyniadau a welir yn yr ysgolion. Roedd y bobl ifainc a welodd y Pwyllgor yn dangos yn glir fod disgwyl iddynt bleidleisio.

Yn Nenmarc, mae’r elw a geir o hapchwarae’n cael ei gyfeirio tuag at fudiadau ieuenctid ac roedd y ddau grw^p a welodd y Pwyllgor yn derbyn arian gan y Llywodraeth drwy Gyngor Ieuenctid Denmarc. Mae hyn yn golygu’u bod yn annibynnol ar y pleidiau ‘rhiant’. Mae gan y Ceidwadwyr tua 2,000 o aelodau a’r Rhyddfrydwyr tua 3,000. Mae’r grwpiau plaid yn mynd i ysgolion i recriwtio ac i gymryd rhan mewn cyfarfodydd ar adeg etholiad.

9. Yn ystod yr ymweliad â Sweden, bu'r Pwyllgor yn ymweld â'r Sefydliad dros Ddemocratiaeth a Chymorth Etholiadol (IDEA) lle y dywedwyd nad yw pobl yn debygol o bleidleisio o gwbl weddill eu bywyd oni bai eu bod yn pleidleisio erbyn y trydydd etholiad y maent yn gymwys i bleidleisio ynddo. Dywedwyd hefyd ei bod yn llawer mwy cost-effeithiol targedu adnoddau at annog pobl rhwng 14 - 25 oed i bleidleisio yn hytrach na thargedu grwpiau hy^n.

10. Yn Sweden, mae canran uchel o'r holl bleidleiswyr yn pleidleisio (tua 90% ym mhob etholiad) ac mae tua 85% o bleidleiswyr ifanc yn pleidleisio. Dywedwyd mai un o'r prif resymau am hyn yw'r ffordd y mae plant yn dysgu am ddemocratiaeth a gwleidyddiaeth yn yr ysgol. Mae ysgolion yn aml yn gwahodd canghennau ieuenctid y prif bleidiau gwleidyddol (a ariennir gan y wladwriaeth) i ddod i'r ysgol i gynnal trafodaethau am wahanol bynciau ac i ddysgu myfyrwyr am wleidyddiaeth eu pleidiau. Anogir myfyrwyr hefyd i drafod materion sy'n effeithio arnynt yn yr ysgol. Mae llawer o barch i gynghorau ysgol ac mae eu llais yn cael ei glywed. Mae llawer o bobl ifanc Sweden hefyd yn aelodau o grwpiau neu glybiau nad ydynt yn wleidyddol eu natur y tu allan i'r ysgol. Mae'r rhain yn eu hannog i drafod ac i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd yn lleol.

11. Yn dilyn eu hymweliad â Denmarc, roedd Aelodau'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus yn awyddus i gasglu tystiolaeth gan gyrff sy'n ymwneud ag addysg wleidyddol. Ar 9 Tachwedd 2005 clywodd dystiolaeth gan Gyngor Addysg mewn Dinasyddiaeth Byd (CEWC) Cymru (Atodiad 3) ac ar 9 Chwefror clywodd dystiolaeth gan swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n ymwneud ag Addysg Bersonol a Chymdeithasol (Atodiad 4).

12. Mae rhai cwestiynau am ddinasyddiaeth wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad cyfredol:

4.8 Gwyddwn fod rhai enghreifftiau o arfer da ym maes addysgu democratiaeth a gwleidyddiaeth y tu mewn i'r cwricwlwm ABCh yng Nghymru a'r tu allan iddo. Byddai'n dda gweld yr arfer da hwn yn cael ei fabwysiadu ledled Cymru.

4.9 Credwn fod annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn democratiaeth a phleidleisio ar bob lefel yn allweddol o ran cynyddu canran y bobl sy'n pleidleisio a sicrhau bod yr etholwyr yn fwy hyddysg.

Cwestiwn 9
Pam fod cyn lleied o bobl ifanc yn pleidleisio yng Nghymru?
Rhowch unrhyw enghreifftiau yr ydych wedi dod ar eu traws (gan hepgor unrhyw fanylion personol)

Cwestiwn 10
A yw ysgolion yn rhoi digon o wybodaeth i ddisgyblion i'w helpu i wneud penderfyniad hyddysg o ran sut y maent yn mynd i bleidleisio?

Cwestiwn 11
A ddylid dysgu gwleidyddiaeth plaid mewn ysgolion?
Os felly, sut?

Os na, pam?

Cwestiwn 12
A ddylai pleidiau gwleidyddol fod yn rhan o'r broses o addysgu pobl ifanc am wleidyddiaeth mewn ysgolion a grwpiau ieuenctid eraill?

Cwestiwn 13
A oes enghreifftiau o arfer da o ran addysgu pobl ifanc am wleidyddiaeth yn eich ardal chi?
Rhowch wybod i ni amdanynt (gan hepgor unrhyw fanylion personol).

Cam i'w gymryd: Dylai'r Pwyllgor nodi'r papur

Atodiad 1: Adroddiad Interim y Pwyllgor, Ionawr 2006
http://www.cymru.gov.uk/keypubassemlocgovpubsvs/content/interim-report-nov-2005-w.pdf

Atodiad 2: Papur Ymgynghori, Mai 2006
http://www.cymru.gov.uk/keypubassemlocgovpubsvs/content/cons-doc-w.htm

Atodiad 3: Papur CEWC-Cymru, 9 Tachwedd 2005
http://www.cymru.gov.uk/servlet/LocalGovernmentAndPublicServicesCommittee?area_code=N000000000000000000000000000014&document_code=N000000000000000000000000037099&p_arch=post&module=dynamicpages&month_year=11|2005

Atodiad 4: Papur gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, 'Electoral Arrangements in Wales Information on Current Initiatives on Education and Participation', ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor ar 9 Chwefror 2006.
http://www.cymru.gov.uk/servlet/LocalGovernmentAndPublicServicesCommittee?area_code=N000000000000000000000000000014&document_code=N000000000000000000000000040796&p_arch=post&module=dynamicpages&month_year=2|2006